AMGUEDDFA CYMRU

# CAMU 'MLAEN

Ydych chi'n cyfri'ch camau bob dydd?

Yma yn Amgueddfa Lechi Cymru, gallwn eich helpu i ychwanegu at eich cyfanswm wrth ymweld â'r amgueddfa wrth archwilio tai'r chwarelwyr, mynd i weld yr olwyn ddŵr anferthol neu alw mewn i weld y gof!

Mae mynd am dro yn dda i'ch iechyd corfforol a meddyliol...felly cymerwch y cam cyntaf a mwynhau rhai o'n huchafbwyntiau!

# STEPPING OUT

Are you keeping a count of how many steps you do per day?

Here at the National Slate Museum we can help you add to your total while visiting the museum – looking around the quarrymen's houses, heading up to see the enormous waterwheel or visiting the blacksmith!

Taking a walk is good for your health both physically and mentally...so put your best foot forward and see some of our highlights!





APPROX 280 STEPS

## LLWYBR 1 – TUA 280 O GAMAU

### Olwyn Ddŵr a Llofft Batrwm

Ewch am dro bach i fyny'r grisiau i weld yr olwyn ddŵr anferthol. Oeddech chi'n gwybod mai dyma'r olwyn ddŵr fwyaf ar dir mawr Prydain? Roedd yn arfer pweru holl offer y gweithdai peirianneg! Dringwch y grisiau sy'n arwain at yr olwyn ddŵr, a rhyfeddwch at ei maint a'i phŵer.

TUA 150 O GAMAU

Ewch ar antur arall gan droi i'r dde ar waelod yr olwyn ddŵr, ac anelu at y ffowndri. Ewch i fyny grisiau llofft batrwm lle gwelwch chi dros 2,000 o batrymau pren manwl yn ein casgliadau.

## TRAIL 1

### Waterwheel & Pattern Loft

For a quick hit that involves stairs on your step count – head for the enormous waterwheel.

Did you know that it's the largest on mainland Britain and once powered all the machinery used in the engineering workshops? Climb the steps up to the waterwheel and marvel at its size and power!

APPROX 150 STEPS

For another steps adventure turn right at the bottom of the waterwheel and head for the foundry. Head up the stairs up to the pattern loft where you'll see over 2,000 intricate wooden patterns in our collections.





## LLWYBR 2 – TUA 350 O GAMAU

### Tai'r Chwarelwyr

Os hoffech fynd yn ôl mewn amser, ewch draw i dai'r chwarelwyr! Mae tŷ 1861 yn Nhanygrisiau ar anterth y diwydiant Llechi, 1901 yn Bethesda yng nghyfnod Streic y Penrhyn a tŷ 1969 yn Llanberis, sydd wedi'i ddodrefnu fel y byddai wedi edrych pan gaeodd Chwarel Dinorwig yn haf 1969.

## TRAIL 2 – APPROX 350 STEPS

### Quarrymen's Houses

Head to the quarrymen's houses and enjoy a bit of time-travelling! Visit the 1861 house in Tanygrisiau at the height of the slate industry, 1901 in Bethesda at the time of the Penrhyn Lockout and 1969 in Llanberis – furnished as it would have been when the Dinorwig Quarry closed in the summer of 1969.

## LLWYBR 3 – TUA 800 O GAMAU

### Yr Amgueddfa Gyfan

Mae ymwelwyr bob amser yn synnu ar faint sydd i'w weld yma – felly beth am grwydro'r amgueddfa yn ei chyfanrwydd? Dilynwch y gwahanol lwybrau a mwynhau'r ffilm gyflwyniadol, y Caban hanesyddol, arddangosfeydd, tai'r chwarelwyr, yr olwyn ddŵr, y ffowndri a'r gweithdai peirianneg gwreiddiol! Cofiwch alw i ddweud helo wrth y gof wrth ei waith!

## TRAIL 3 – APPROX 800 STEPS

### Complete Museum Trail

It always surprises people that there's so much to see here – so if you've got plenty of time, step your way around the whole museum! Follow the self-guided pathway and enjoy the introductory film, the historic Caban (Mess Room), exhibitions, quarrymen's houses, waterwheel, foundry and all the original engineering workshops! Don't forget to see the blacksmith at work on your way!









## LLWYBR 4 – TUA 800 O GAMAU

### Ysbyty'r Chwarel

Gan adael yr amgueddfa, ewch tuag at y ffens ar hyd Rheilffordd y Llyn. Ar y dde, fe welwch chi inclein Vivian V2 – yr unig inclein cludo Llechi gweithredol yn y byd! Dilynwch y llwybr, ac fe ddewch chi i golygfan gyda golygfeydd anhygoel o Lyn Padarn ac yn ôl i'r amgueddfa. Croeswch y bont a dringo'r grisiau i fyny i Ysbyty'r Chwarel.

*Sylwer nad yw'r Ysbyty ar agor drwy'r amser. Cofiwch wirio oriau agor cyn ymweld.

## TRAIL 4 – APPROX 800 STEPS

### Quarry Hospital

Leaving the museum, head out towards the fencing along the Lake Railway. On your right you'll see the Vivian V2 incline - the only operational slate carrying incline in the world! Follow the pathway where you'll come to a lookout point with stunning views of Padarn Lake and back towards the museum. Cross the bridge and go up the steps to the Quarry Hospital.

*Please note the hospital is not always open. Please check opening times before setting out

Pentref yr Wyddfa LLANBERIS Snowdon's Village

## LLWYBR 5 – TUA 1,300 O GAMAU

### Castell Dolbadarn a phentref Llanberis

Mae'r daith yma yn mynd â chi heibio Castell Dolbadarn ac i bentref Llanberis. Gadewch yr amgueddfa drwy'r prif fynediad a cherdded ar hyd y palmant allan o'r parc. Ewch i'r dde dros y bont droed (wrth dai'r chwarelwyr) draw i'r caeau. Gallwch fynd i'r chwith am dro i fyny am Gastell Dolbadarn neu ewch yn syth yn eich blaen i fwynhau siopau ac atyniadau y pentref. Cofiwch ddilyn y llwybrau cyhoeddus!

## TRAIL 5 – APPROX 1,300 STEPS

### Dolbadarn Castle and Llanberis village

This walk takes you past Dolbadarn Castle and to Llanberis village. Leave the museum via the main archway and head for the pavement taking you out of the park. Turn right over the footbridge (by the quarrymen's houses) onto the field. You can take a left and visit Dolbadarn Castle here or head onwards to enjoy the shops and attractions of the village. Please follow the public pathways!





## LLWYBR 6 – TUA 3,000+ O GAMAU

### Llwybrau'r Chwarel

Os hoffech fynd ymhellach, beth am ddilyn rhai o'r llwybrau o gwmpas y parc?

Mae nifer i ddilyn fel Cylchdaith y Llyn, y Daith Goedwig neu Llwybr Vivian sy'n mynd tuag at olygfan y Chwarel ac yn dangos golygfeydd anhygoel o bonciau'r chwareli a phentref Llanberis isod.*

## TRAIL 6 – APPROX 3,000+ STEPS

### Quarry Paths

If you're feeling adventurous why not follow one of the park walks?

There are a few to follow including the Circular Lake Walk, the Woodland Walk or the Vivian Trail which takes you towards the Quarry lookout point for the most stunning views of the slate galleries and local scenery.*

Caiff camau pob taith eu cyfrif o fynedfa'r amgueddfa. Amcangyfrifon yw'r rhifau uchod, a gallant amrywio rhwng teclynnau cyfri camau.

All steps calculated from the front entrance of the museum. All calculations are approximate and may vary between step counters.

Darganfyddwch mwy am Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yma www.llechi.cymru

Os ydych chi am gerdded mwy fyth, beth am roi cynnig ar un o lwybrau Llwybr Llechi Eryri – taith 83 milltir o gwmpas tirwedd llechi unigryw gogledd Cymru! www.snowdoniaslatetrail.org/cymraeg/

*Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn hynod brydferth a diddorol, ond yn ôl ei natur yn medru bod yn anghysbell, peryglus a heriol. Cymerwch ofal wrth gerdded, gwisgwch ddillad priodol ac arhoswch ar y llwybrau swyddogol. Cyn i chi gychwyn ewch i www.adventuresmart.uk/cy/er mwyn darganfod sut i fwynhau eich ymweliad yn ddiogel.

Find out more about the Slate Industry of North West Wales World Heritage Site here www.llechi.cymru

If you'd like to carry on your step count why not try one of the wonderful pathways on the Snowdonia Slate Trail - an 83 mile route around the unique slate landscape www.snowdoniaslatetrail.org

*The Slate Landscape of Northwest Wales is beautiful and fascinating, but by its very nature can be remote, dangerous and challenging. Please be careful on your walks, wear appropriate clothing and footwear and stay on official pathways. Before you set off, go to www.AdventureSmart.uk to find out how to enjoy your visit safely.